



Canllaw i ganlyniadau

**Bagloriaeth Cymru
Cydrannau'r Her Sgiliau**

Haf 2024

Cynnwys

1.	Diwrnod y canlyniadau	3
	i) Casglu canlyniadau arholiadau	3
	ii) Beth i'w ddisgwyl	3
	iii) Sut mae'r canlyniadau yn cael eu dangos ar y slip canlyniadau	3
	iv) Symbolau a ddefnyddir ar slip canlyniadau	4
2.	Deall Canlyniadau	4
	i) Esbonio graddau	4
	ii) Esbonio marciau	5
	iii) Sut mae marciau'n cael eu trawsnewid yn raddau	6
3.	Ffiniau graddau	6
4.	Beth i'w wneud os yw ymgeisydd am wneud ymholiad am ganlyniad	7
5.	Pryd bydd tystysgrifau ar gael	7

1. Diwrnod y canlyniadau

i) Casglu canlyniadau arholiadau

Rhaid i ymgeiswyr dderbyn eu canlyniadau arholiadau oddi wrth eu canolfan, fel arfer ar y diwrnod canlyniadau swyddogol.

Ar gyfer cyfres Mehefin 2024, cyhoeddir canlyniadau:

o 8:00 am **ddydd Iau 15 Awst** ar gyfer Bagloriaeth Cymru Uwch.

o 8:00 am **ddydd Iau 22 Awst** ar gyfer Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol/Sylfaen.

Nid yw CBAC yn gallu darparu na thrafod canlyniadau dros y ffôn na drwy gyfathrebu ar e-bost ag ymgeiswyr neu rieni, hyd yn oed os yw'r ysgol neu'r coleg wedi cau. Dylai ymgeiswyr, felly, gadarnhau â'u hysgol neu goleg pryd a ble y bydd canlyniadau ar gael i'w casglu a sut a gyda phwy y gallent drafod unrhyw faterion neu bryderon.

Ni ddylid datgelu canlyniadau i unrhyw un arall gan gynnwys awdurdodau lleol a'r cyfryngau tan ar ôl 9:30am ar ddiwrnod y canlyniadau perthnasol.

ii) Beth i'w ddisgwyl

Ar ddiwrnod y canlyniadau, fel arfer bydd ymgeiswyr yn derbyn darn o bapur gyda'u canlyniadau arno.

Canlyniadau rhagarweiniol yw'r rhain ar hyn o bryd; gellir gwneud newidiadau yn ddiweddarach, yn dilyn adolygiad gan y ganolfan neu apêl, er enghraifft.

iii) Sut mae'r canlyniadau yn cael eu dangos ar slip canlyniadau

Bydd slipiau canlyniadau yn dangos canlyniadau ymgeisydd ar gyfer pob cymhwyster a phob her a safodd yr ymgeisydd hwnnw yn ystod y gyfres arholiadau honno.

Mae'r graddau canlynol yn cael eu dyfarnu i'r Dystysgrif Her Sgiliau a chymhwyster Bagloriaeth Cymru:

	Tystysgrif Her Sgiliau	Bagloriaeth Cymru
Sylfaenol	Llwyddo (P) neu Llwyddo* (P*)	Llwyddo (P) neu Fethu (F)
Cenedlaethol	A* - C	Llwyddo (P) neu Fethu (F)
Uwch	A* - E	Llwyddo (P) neu Fethu (F)

Dyfernir y graddau canlynol i bob her:

	Cenedlaethol/Sylfaen	Uwch
Project	L1 Llwyddiant (P1), L2 Llwyddiant (P2), L2 Teilyngdod (M2), L2 Rhagoriaeth (D2)	L3 Llwyddiant (P), L3 Teilyngdod (M) neu L3 Rhagoriaeth (D)
Menter a Chyflogadwyedd	L1 Llwyddiant (P1), L2 Llwyddiant (P2), L2 Teilyngdod (M2), L2 Rhagoriaeth (D2)	L3 Llwyddiant (P), L3 Teilyngdod (M) neu L3 Rhagoriaeth (D)
Byd-eang	L1 Llwyddiant (P1), L2 Llwyddiant (P2), L2 Teilyngdod (M2), L2 Rhagoriaeth (D2)	L3 Llwyddiant (P), L3 Teilyngdod (M) neu L3 Rhagoriaeth (D)
Cymuned	L1 Llwyddiant (P1), L2 Llwyddiant (P2), L2 Teilyngdod (M2), L2 Rhagoriaeth (D2)	L3 Llwyddiant (P), L3 Teilyngdod (M) neu L3 Rhagoriaeth (D)

Os yw lefel cyflawniad ymgeisydd yn y Dystysgrif Her Sgiliau islaw'r safon isaf, bydd yr ymgeisydd hwnnw'n derbyn canlyniad annosbarthedig (U) ac ni fydd yn derbyn dystysgrif am y cymhwyster.

iv) Symbolau a ddefnyddir ar slip canlyniadau

Yn ogystal â graddau a marciau, gall slipiau canlyniadau gynnwys symbolau eraill:

Mae **X** yn dangos nad yw canlyniad yn cael ei gyhoeddi oherwydd absenoldeb yr ymgeisydd ar gyfer pob cydran/uned. Mae'n bosibl hefyd y penderfynwyd peidio â chyhoeddi canlyniad. Ni fydd unrhyw bwnc ag (X) yn ymddangos ar y dystysgrif.

Mae **Q** yn dangos bod canlyniad i ddod neu ddim ar gael ar hyn o bryd.

Rhoddir y dangosydd hwn nesaf i'r radd gyffredinol os yw'r ymgeisydd wedi cwblhau gwaith ar gyfer rhai, ond nid pob un, o gydrannau neu unedau'r pwnc.

2. Deall Canlyniadau

i) Esbonio Graddau

Adroddir graddau'r Project Unigol a'r Heriau fel a ganlyn:

Uwch L3 Llwyddiant, L3 Teilyngdod neu L3 Rhagoriaeth
Cenedlaethol/Sylfaen L1 Llwyddiant, L2 Llwyddiant, L2 Teilyngdod, L2 Rhagoriaeth

Adroddir dystysgrifau her sgiliau fel:

Uwch A* - E
Cenedlaethol A* - C
Sylfaen Llwyddiant neu Llwyddiant*

Adroddir graddau Bagloriaeth Cymru fel Llwyddo neu Fethu.

ii) Esbonio marciau

Marciau crai

Mae cyfanswm marciau crai yn cael ei ddyrannu i'r Project Unigol a phob her.

Graddfa Marciau Unffurf (GMU)

Mae marciau crai yn cael eu trawsnewid yn farc unffurf (GMU) sy'n cael ei ddefnyddio fel dyfais ar gyfer adrodd, cofnodi ac agregu canlyniadau asesu heriau/cydrannau ymgeiswyr. Mae'r GMU yn cael ei defnyddio fel y bydd ymgeiswyr sy'n cyrraedd yr un safon yn cael yr un marc unffurf, pryd bynnag y cymerwyd yr uned.

Adroddir marciau unffurf fel marciau cyfan ac felly, os bydd angen gwneud hynny, byddan nhw'n cael eu "talgrynnu" (e.e. adroddir marc unffurf o 19.6 fel 20). Er bod hyn yn rhywbeth prin, gall olygu bod marc crai ar frig yr ystod marciau mewn gradd yn trawsnewid yn farc unffurf wedi'i dalgrynnu sy'n cyfateb i'r radd nesaf i fyny. Noder, er na chodir gradd yr uned yn rhan o'r broses dalgrynnu, y bydd y marc unffurf wedi'i dalgrynnu'n cael ei ddefnyddio wrth gyfrifo'r radd gyffredinol.

Y ffiniau graddau GMU ar gyfer y project unigol a'r heriau yw:

Uwch

	GMU Uchaf	D	M	P
Project Unigol	150	120	90	60
Menter a Chyflogadwyedd	75	60	45	30
Byd-eang	75	60	45	30
Cymuned	75	60	45	30

Cenedlaethol/Sylfaen

	GMU Uchaf	D2	M2	P2	P1
Project Unigol	150	120	90	60	30
Menter a Chyflogadwyedd	75	60	45	30	15
Byd-eang	75	60	45	30	15
Cymuned	75	60	45	30	15

Y ffiniau graddau GMU ar gyfer y tystysgrifau her sgiliau cyffredinol yw:

Uwch

	Uchaf	A*	A	B	C	D	E
Tystysgrif Her Sgiliau Uwch	300	270	240	210	180	150	120

Rhaid i ddysgwyr gyflawni'r Project Unigol a dwy Her er mwyn cyflawni'r Dystysgrif Her Sgiliau, gyda Llwyddiant Lefel 3 o leiaf ym mhob un.

Rhoddir gradd A*-E am y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch. I ennill y cymhwyster, rhaid i'r dysgwr wneud y canlynol:

- ennill y marc GMU lleiaf ar gyfer gradd y cymhwyster a
- llwyddo ym mhob un o'r tair cydran gyda Llwyddiant Lefel 3 o leiaf ym mhob un.

Cenedlaethol/Sylfaen

	Cenedlaethol					Sylfaen	
	Uchaf	A*	A	B	C	Llwyddiant*	Llwyddiant
Tystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol/Sylfaen	300	270	240	180	120	90	60

Er mwyn cyflawni'r Dystysgrif Her Sgiliau, rhaid i ddysgwyr gyflawni'r project unigol a'r cydrannau her a ddewiswyd.

Gellir dyfarnu gradd Sylfaen neu Genedlaethol i'r cymhwyster.

Rhoddir gradd A*-C am y Dystysgrif Her Sgiliau Genedlaethol. I ennill y dyfarniad Cenedlaethol, rhaid i'r dysgwr:

- ennill y marc GMU lleiaf ar gyfer gradd y cymhwyster a
- llwyddo ym mhob un o'r cydrannau a ddewiswyd.

Rhoddir gradd Llwyddiant Sylfaen neu Lwyddiant Sylfaen* am y Dystysgrif Her Sgiliau Sylfaen. I ennill y dyfarniad Sylfaen, rhaid i'r dysgwr:

- ennill y marc GMU lleiaf ar gyfer gradd y cymhwyster a
- llwyddo ym mhob un o'r cydrannau a ddewiswyd.

iii) Sut mae marciau'n cael eu trawsnewid yn raddau

Cyfrifir gradd gyffredinol y cymhwyster gan adio'r marciau unffurf a enillwyd yn yr heriau/cydrannau unigol at ei gilydd. Mae hyn yn rhoi cyfanswm marciau unffurf i'r ymgeiswyr sy'n trawsnewid yn radd gyffredinol yn seiliedig ar ffin y radd.

3. Ffiniau graddau

Ffiniau graddau yw'r nifer isaf o farciau y mae eu hangen i ennill pob gradd. Er bod papurau arholiad yn cael eu hysgrifennu i'r un lefel o anhawster, maen nhw'n amrywio bob blwyddyn. Mae ffiniau graddau yn sicrhau bod ymgeiswyr yn derbyn yr un radd ar gyfer yr un lefel o berfformiad, pryd bynnag caiff arholiad ei sefyll.

Gallwch weld ffiniau graddau unedau a'r wybodaeth am drawsnewid marciau crai yn farciau GMU yn ein trawsnewidydd gradd [yma](#).

Ar gyfer ffiniau graddau GMU cymwysterau, cyfeiriwch at y manylebau pwnc perthnasol dan cymwysterau [yma](#).

4. Beth i'w wneud os yw ymgeisydd am wneud ymholiad am ganlyniad

Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn trafod unrhyw bryderon â'u hysgol neu goleg, Swyddog Arholiadau neu athro fel arfer, a phenderfynu ar yr opsiynau gorau sydd ar gael.

Os teimlir bod gwall wedi digwydd, gallai'r ganolfan wneud cais am

- Adolygiad o'r cymedroli ar ôl y canlyniadau – noder nad yw hwn ar gael ar gyfer ymgeiswyr unigol.

Ni all ymgeiswyr mewnol na rhieni wneud cais. Gall ymgeiswyr preifat gysylltu'n uniongyrchol â Gwasanaethau Ar ôl y Canlyniadau CBAC i gyflwyno cais.

Am fanylion pellach, ewch i'n tudalen [Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau](#) a chyfeiriwch at y wybodaeth a gyhoeddir gan y CGC am weithdrefnau [Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau](#).

Nid oes angen cydsyniad ymgeisydd ar gyfer adolygiad o gymedroli gan na fydd y radd wreiddiol yn cael ei gostwng. Fodd bynnag, dylai ymgeiswyr a chanolfannau fod yn ymwybodol y byddai marc wedi'i ostwng yn cael ei drosglwyddo i ardystiad yn y dyfodol.

Bydd y canlyniad yn cael ei gyhoeddi yn uniongyrchol gan CBAC i'r ysgol neu goleg, a byddan nhw wedyn yn trosglwyddo'r wybodaeth i'r ymgeiswyr. Os cyflwynwyd cais gan ymgeisydd preifat yn uniongyrchol i CBAC, yna'r ymgeisydd ei hun fydd yn derbyn y canlyniad. **Unwaith y bydd canlyniad wedi'i gyhoeddi, ni ellir adfer y marc gwreiddiol dan unrhyw amgylchiadau, hyd yn oed os yw'r marc newydd yn is na'r marc gwreiddiol.**

5. Pryd bydd tystysgrifau ar gael

Bydd tystysgrifau yn cael eu hanfon i ganolfannau erbyn mis Tachwedd.

Dylai ymgeiswyr gadarnhau bod eu manylion personol, enw a dyddiad geni, yn gywir ar y slip canlyniadau a rhoi gwybod i'r Swyddog Arholiadau os oes unrhyw wallau. Rhaid i Swyddogion Arholiadau roi gwybod i CBAC am wallau, yn ysgrifenedig, yn ddim hwyrach na 8 Medi 2024. Os nad yw gwallau'n cael eu cywiro yn y cyfnod hwn, bydd cost am dystysgrifau newydd ar ôl eu cyhoeddi. Dylai ymgeiswyr gadarnhau â'u hysgol neu goleg beth yw'r trefniadau ar gyfer derbyn eu tystysgrifau.